Adran Gwaith
a Phensiynau

Minister for Welfare Reform
4th Floor
Caxton House
Tothill Street
LONDON
SW1H 9DA

**0207 340 4000**

**www.dwp.gov.uk/
cymraeg**

**ministers@dwp.gsi.gov.uk**

1 Awst 2013

Prif Weithredwyr Awdurdod Lleol

**Credyd Cynhwysol – mwy o wybodaeth am y broses gyflwyno**

Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau y camau nesaf ar gyfer cyflwyno'r Credyd Cynhwysol. Yn ychwanegol i’r pedwar safle braenaru sydd eisoes wedi dechrau cymryd ceisiadau, bydd chwe Canolfan Gwaith ychwanegol yn dechrau derbyn ceisiadau newydd gan hawlwyr sengl di-waith o fis Hydref 2013 ymlaen. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn dechrau’r trawsnewid diwylliannol a ddaw gyda’r budd-dal drwy weithredu’r Ymrwymiad Hawlydd yn genedlaethol a chwiliad gwaith gwell ar draws yr holl Ganolfannau Gwaith. Bydd deg peilot amodoldeb mewn gwaith yn profi’r ffordd orau i annog hawlwyr i symud ymlaen mewn gwaith a byddwn yn gwella mynediad at wasanaethau digidol ar draws y Ganolfan Byd Gwaith, er mwyn sicrhau bod ceiswyr gwaith yn dod i’r arfer â defnyddio trafodion ar-lein.

Mae'r Llywodraeth yn dal ar y trywydd iawn i gyflwyno Credyd Cynhwysol yn ddiogel erbyn 2017. Rydym eisoes wedi rhannu ein cynlluniau drafft gyda grwpiau cynrychioliadol o'r sector llywodraeth leol i gyflawni hyn. Wrth i'r cynlluniau hyn ddatblygu, bydd Howard Shiplee, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Credyd Cynhwysol, yn cynnal deialog agored gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol. Yn y cyfamser, rwyf yn cydnabod bod angen rhywfaint o sicrwydd arnoch ar gyfer dibenion cynllunio. Hoffwn eich sicrhau **y byddwn yn cynnal y lefel o arian sydd ei angen i reoli gweinyddiaeth lawn Budd-dal Tai yn 2014-2015.**

**Diweddariad ar wasanaethau cymorth lleol**


Ysgrifennais atoch ym mis Chwefror eleni am gyhoeddi’r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol Credyd Cynhwysol (LSSF). Roedd hwn yn amlinellu sut y mae DWP yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i sicrhau bod cefnogaeth ar gael ar gyfer hawlwyr sydd angen cymorth ychwanegol pan fydd Credyd Cynhwysol yn disodli amryw o fudd-daliadau a chredydau.

Rydym yn ymwybodol o'r angen i ail-ganolbwyntio’r gwaith gwasanaethau cymorth lleol yn sgil y cyhoeddiad diweddar. Yn fras, mae ein bwriadau yn awr fel a ganlyn:

- parhau i ddatblygu eitemau penodol lle mae cynhyrchu eisoes ar y gweill a lle mae'n werthfawr i wneud hynny; sef agweddau ar y model ariannol, a gwaith cynnar ar ddatblygu partneriaethau
- lle y bo'n bosibl i brofi agweddau o’r LSSF o fewn y safleoedd braenaru a'r ardaloedd Credyd Cynhwysol fyw newydd
- datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer profi a threialu gwasanaethau cymorth lleol dros y 18 mis nesaf.

Dywedais yn fy llythyr blaenorol y byddem yn diweddaru’r LSSF ym mis Hydref 2013. Bydd ein diweddariad yn cynnwys casgliadau o waith ar y cyd pellach gyda chydweithwyr llywodraeth lleol, er enghraifft ar y model ariannol; gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot a safleoedd braenaru; ac ein strategaeth ar gyfer profion a threialu pellach rydym yn bwriadu eu gwneud. Ein nod wedyn fydd cynhyrchu dogfen LSSF diweddaraf lawn yn hydref 2014 a fydd yn darparu sylfaen bendant i ganiatáu awdurdodau lleol cynllunio eu gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-2016.

Rwyf yn llwyr sylweddoli pa mor bwysig y mae awdurdodau lleol i gyflwyno’r Credyd Cynhwysol, a bod llawer ohonoch eisoes wedi cymryd camau, ar y cyd â chydweithwyr gweithredol lleol DWP, i edrych ar ddarparu gwasanaethau a datblygu'r partneriaethau cyflwyno y bydd eu hangen. Rwyf hefyd yn ymwybodol y gall y sgyrsiau hyn helpu gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth presennol. Byddwn yn eich annog i barhau i gydweithio ar wasanaethau presennol lle mae'n ymddangos yn synhwyrol i wneud hynny. Edrychaf ymlaen at ehangu ar hyn wrth i'r rhaglen symud ymlaen.



**Arglwydd Freud**

**Y Gweinidog dros Ddiwygio Lles**